Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 14.06.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# YMGYRCH: Gadewch i ni roi hwb i wariant lleol ar gyfer Sul y Tadau #SulYTadau #PrynuLleol #CefnogiLleol

Mae ymgyrch Cyngor Gwynedd i annog trigolion ac ymwelwyr i gefnogi ein busnesau lleol yn parhau. Mae pecyn adnoddau digidol i chi ei ddefnyddio, sy'n cynnwys GIFs a logos, ar gael i'w lawrlwytho ar:

https://bit.ly/3aTVn8Q

Yn ychwanegol i'r adnoddau digidol, mae'r Cyngor wedi cynhyrchu arwyddion a sticeri i fusnesau lleol annibynnol hyrwyddo'r negeseuon Prynu'n Lleol. Mae rhain i'w cael yn rhac

ac am ddim drwy yrru e-bost efo'ch cyfeiriad llawn at: prynulleol@gwynedd.llyw.cymru.

Lledaenwch y neges drwy ddilyn a rhannu cynnwys o:

- Facebook
  https://www.facebook.com/prynulleol

- Twitter
  https://twitter.com/prynulleol

- Instagram
  https://www.instagram.com/prynulleol/

Bydd rhagor o ymgyrchoedd Prynu'n Lleol yn rhedeg drwy'r flwyddyn. I gymryd rhan, cysylltwch â:

prynulleol@gwynedd.llyw.cymru

## RECRIWTIO: Gwaith Gwynedd – Hysbysfwrdd Swyddi

Os oes gennych unrhyw swyddi i'w llenwi, yna mae gan menter Cyngor Gwynedd, Gwaith Gwynedd, 'Hysbysfwrdd swyddi gwag yng Ngwynedd' ar Facebook i helpu cysylltu cyflogwyr gyda'r rhai sy'n chwilio am waith. Gall hyn fod o gymorth, yn enwedig yr adeg yma o'r flwyddyn, os ydych yn dymuno hyrwyddo unrhyw swyddi tymhorol sy'n addas i bobl ifanc. Ewch i:

https://www.facebook.com/groups/1169426113501265/

## DIGIDOL: Darganfyddwch fanteision parthau.wales a.cymru

I'r rheiny sydd eisiau tanlinellu eu cysylltiad neu eu treftadaeth Gymreig, mae cael enw parth.cymru neu.wales yn ffordd berffaith o ddangos i'r byd eich bod yn falch o fod yn rhan o Gymru. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://eincartrefarlein.cymru/

## LLES: Gweminar Iechyd a Lles Dynion 15 Mehefin 2022 – RCS

Bydd y weminar yma gan RCS, ar 15 Mehefin 2022 (10:00am-12:00pm), yn rhannu gwybodaeth am gyflyrau iechyd meddwl a chorfforol y mae dynion yn eu hwynebu. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3Qhlc2S

Mae RCS yn darparu cymorth, hyfforddiant a therapïau i helpu pobl a busnesau ledled Cymru i wella eu llesiant ar gyfer gwaith. Mae gwybodaeth cyffredinol am RCS ar gael ar:

https://rcs-wales.co.uk/cy/

## DIGWYDDIAD: FSB – Sgwrs gyda'r Athro Chris Whitty, Prif Swyddog Meddygol – COVID-19 a busnesau bach 27 Mehefin 2022

Nid yw COVID-19 ar ben ac mae llawer o berchnogion busnesau bach yn dal i wynebu effeithiau COVID, yn aml yn y gweithle ac ymhlith staff. Bydd Dr Susan Hopkins o UKHSA yn ymuno â'r Athro Chris Whitty i gymryd eich cwestiynau ynghylch COVID-19, y cyngor iechyd cyhoeddus diweddaraf ac effaith COVID ar fusnesau bach, yn ystod y digwyddiad FSB ar-lein hwn a gynhelir ar 27 Mehefin 2022 (3:15pm-4:00pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3MQSbrZ

## ARIANNU: Cylch 2 y Gronfa Perchnogaeth Gymunedol

Mae'r Gronfa Perchnogaeth Gymunedol yn helpu grwpiau cymunedol i brynu neu adnewyddu asedau a fyddai'n cael eu

colli i'r gymuned fel arall. Mae canllawiau am y meini prawf cymhwysedd a sut i gyflwyno mynegiad o ddiddordeb ar gyfer Cylch 2 o'r gronfa ar gael ar:

https://www.gov.uk/guidance/community-ownership-fund-round-2-how-to-express-your-interest-in-applying.cy

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru